Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 34/2013

# Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru Cam 2, 2013

# Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru - Cam 2, 2013
# Ymchwil ar ran Croeso Cymru


## Sarah McDonough, Beaufort Research Ltd.


beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru


I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Krishan Kawol

Ymchwil Twristiaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Ffôn: 01443 845750

E-bost: krishan.kawol@wales.gsi.gov.uk



ISBN: 978-0-7504-9594-3

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013



© Hawlfraint y Goron 2013

| **CYNNWYS** | **TUDALEN** |
|---|---|


**CANFYDDIADAU ALLWEDDOL ........................................................................ 1**

**1. CYFLWYNIAD AC AMCANION ...................................................................... 3**

**2. METHODOLEG ............................................................................................ 4**

**3. PRIF GANFYDDIADAU ................................................................................. 6**

3.1 Hyder Busnesau ........................................................................................ 6
3.2 Cyrchu Lleol .............................................................................................. 11
3.3 Cynaliadwyedd .......................................................................................... 14
3.4 Trafnidiaeth Gyhoeddus ............................................................................ 19

**ATODIAD**

**HOLIADUR YR AROLWG**

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

### Hyder Busnesau

- Roedd ychydig dros draean (34%) o'r holl fusnesau a sefydlwyd mwy na 12 mis wedi derbyn mwy o westeion/ymwelwyr ym mis Mai eleni o'i gymharu â mis Mai'r llynedd, er bod cyfran debyg (35%) wedi nodi eu bod wedi derbyn llai. Dywedodd ychydig dros chwarter eu bod wedi derbyn tua'r un maint (28%) - roedd niferoedd y gwesteion/ymwelwyr yn dangos y cynnydd mwyaf ar gyfer llety â gwasanaeth (44%) a'r cynnydd isaf ar gyfer llety hunan ddarpar (21%).

- Ar gyfer busnesau'n derbyn mwy o westeion/ymwelwyr eleni, teimlwyd bod gwell tywydd (23%) ac ymdrechion marchnata (11%) a digwyddiadau yn yr ardal (10%) wedi cyfrannu at gynnydd mewn niferoedd. Ar y llaw arall, i'r busnesau hynny oedd wedi derbyn llai o westeion/ymwelwyr, ystyriwyd mai'r tywydd gwael (53%) a'r hinsawdd economaidd (47%) oedd y prif reswm dros hyn.

- Yn gysylltiedig yn agos â niferoedd gwesteion/ymwelwyr, adroddodd un traean o'r busnesau y cyfwelwyd â hwy drosiant uwch ym mis Mai eleni o'i gymharu â mis Mai'r llynedd (35%), er dywedodd yr un gyfran yn fras bod y trosiant yn is (33%). Dywedodd un chwarter pellach fod y trosiant eleni yr un peth (26%).

- Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau'n hyderus ar gyfer tymor yr haf (73%), gyda 25% yn hyderus iawn a 48% yn eithaf hyderus. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif sylweddol o bron i chwarter (23%) yn hyderus am yr haf.

### Cyrchu Lleol

- Roedd y mwyafrif llethol o'r busnesau (91%) o'r farn ei bod yn bwysig eu bod yn cyrchu nwyddau a gwasanaethau lleol, gyda 63% yn dweud bod hyn yn bwysig iawn a 28% yn dweud bod hyn yn eithaf pwysig - roedd busnesau yng Ngogledd Cymru fwyaf tebygol o ystyried bod hyn yn bwysig iawn (73%). Dim ond 7% nad oeddent yn ystyried hyn yn bwysig i'w busnes.

- Roedd y rhesymau dros ystyried ei bod yn bwysig cyrchu cynnyrch a gwasanaethau lleol yn cynnwys rhoi hwb i'r economi leol, bod yn bositif gyda'u cwsmeriaid a lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai nad oeddent o'r farn bod hyn yn bwysig yn honni nad oedd yn berthnasol i'w busnes am nad oeddent yn darparu cynnyrch i'w gwesteion/ymwelwyr, er y soniwyd am ansawdd is a phrisiau uwch.

### Cynaliadwyedd

- Roedd mwy na naw busnes o bob deg (95%) o'r farn ei bod yn bwysig eu bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gyda dros ddau draean yn ystyried ei fod yn bwysig iawn (63%). Roedd atyniadau a'r busnesau hynny yn y De Ddwyrain fwyaf tebygol o ddweud bod gweithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn bwysig iawn (77% a 73% yn y drefn honno).

- Roedd bron bob busnes (99%) yn gweithredu o leiaf un mesur sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd (cyfartaledd o bedwar o'r wyth a restrwyd). Yr un mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd ailgylchu (97%), yna lleihau gwastraff (73%) ac arbed ynni (72%).

- Roedd tua dau draean o'r busnesau a oedd yn gweithredu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd (62%) wedi defnyddio ffynonellau o arweiniad neu gymorth i helpu i ddatblygu cynaliadwyedd eu busnes - yr adnoddau a ddefnyddiwyd amlaf oedd Croeso Cymru (34%) a'u Hawdurdodau Lleol (29%).

- Roedd tua saith o bob deg busnes llety (71%) a chwech o bob deg atyniad (58%) yn dweud wrth eu gwesteion/ymwelwyr am eu mesurau o weithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd (lle y bo'n berthnasol). Roedd darparwyr llety yn fwy tebygol o fod yn dewis hyrwyddo'r rhain drwy lenyddiaeth marchnata printiedig (50%) tra bod atyniadau yn fwy tebygol o ddefnyddio'u gwefan (46%).

- Dim ond cyfran fach o'r busnesau hyn oedd yn meddu ar achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol (17%) - yr achrediad y soniwyd amdano amlaf oedd Gwobr y Ddraig Werdd.

- Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau o'r farn bod rhwystrau i'w busnesau weithredu mesurau i fod yn gyfeillgar i'r amgylchedd (71%) - y prif rwystr o lawer oedd cost (40%).

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Roedd lefelau o ymwybyddiaeth o wasanaethau, llwybrau ac amserlenni trafnidiaeth ar eu huchaf ymhlith busnesau - roedd 89% yn ymwybodol o'r gwasanaeth yn eu hardal, 84% yn ymwybodol o lwybrau a 77% yn ymwybodol o amserlenni.

- Roedd rhan fwyaf y busnesau'n darparu gwybodaeth ac anogaeth i'w gwesteion/ymwelwyr mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus (76%). Roedd dau draean yn sicrhau bod amserlenni ar gael yn eu heiddo (66%), roedd dau o bob pump (39%) yn hyrwyddo'r opsiynau ar gyfer trafnidiaeth leol ar eu llenyddiaeth marchnata a 30% ar eu gwefan. Er bod 33% yn mynd ati i annog eu gwesteion/ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ystod eu harhosiad, dim ond 9% oedd yn darparu cymhelliant i wneud hynny.

## 1. CYFLWYNIAD AC AMCANION

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal Arolwg Busnesau Twristiaeth Cymru ers 2004. Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg gwerthfawr i'r ffordd y mae busnesau twristiaeth yng Nghymru yn perfformio, a'u rhagolygon busnes. Mae'r arolwg yn cynnwys sawl cam o ymchwil ac mae'n ymgysylltu â sampl gynrychioladol o fusnesau yn y sectorau llety ac atyniadau yng Nghymru.

Yr agwedd allweddol ar y prosiect yw ei allu i ddarparu *mewnwelediad yn gyflym*, yn dilyn cyfnodau gwyliau allweddol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r mewnwelediadau hyn yn darparu awgrymiadau cynnar o berfformiad busnes.

Er mwyn sicrhau hyn, glynir at amserlen gaeth ar gyfer pob cam o'r arolwg. Mae'r gwaith maes wedi'i amserlennu i ddigwydd ar unwaith yn dilyn dyddiad penodol - mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chyfnod gŵyl banc diwedd Mai. Cyflenwir data'r ymchwil erbyn diwedd yr wythnos o waith maes, gydag adroddiad cyflawn yn cael ei gwblhau erbyn yn gynnar yr wythnos wedyn.

Y meysydd pwnc yr ymdrinnir â hwy yng Ngham 2 yr arolwg Busnesau Twristiaeth 2013 yw:




**Hyder busnesau**
*Nifer y gwesteion/ymwelwyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a hyder yn nhymor haf 2013.*



**Cyrchu Lleol**
*Pwysigrwydd canfyddedig o ddefnyddio darparwyr cynnyrch a gwasanaethau lleol, a'r rhesymau y tu ôl i hyn*



**Cynaliadwyedd**
*Pwysigrwydd canfyddedig o weithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, arferion busnes 'gwyrdd' cyfredol, cyfleu'r arferion hyn i'r gwesteion/ymwelwyr a rhwystrau i weithredu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd*



**Trafnidiaeth gyhoeddus**
*Ymwybyddiaeth o drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus i westeion/ymwelwyr*

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r arolwg.

## 2. METHODOLEG

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron) gan uned gyfweld benodedig Beaufort Research. Cymerodd cyfweliadau rhwng 5 - 6 munud. Cymerodd cyfanswm o 5% o'r sampl eu cyfweliad yn Gymraeg; roedd mwy wedi manteisio ar yr opsiwn hwn yng Ngogledd Cymru (10%), a'r lleiaf yn Ne Ddwyrain Cymru (0%).

Cynhaliwyd cyfanswm o **405 cyfweliad**, a digwyddodd gwaith maes ar $3^{ydd}$ a $4^{ydd}$ Mehefin. Lluniwyd yr adroddiad hwn brynhawn Llun $10^{fed}$ Mehefin; llwyddwyd i wneud y gwaith yn gyflym oherwydd yr ymateb rhagorol gan y busnesau a oedd yn frwdfrydig ac yn barod iawn i gymryd rhan.

Roedd y grŵp samplu ar gyfer yr ymchwil (a oedd yn cynnwys busnesau heb radd yn ogystal â rhai â gradd) yn cynnwys busnesau llety yng Nghymru oedd yn hysbys i Groeso Cymru (wedi'i ddarparu gan Groeso Cymru ac wedi'i ddarganfod gan Beaufort Research), a phob atyniad twristiaeth hysbys yng Nghymru (a ddelir gan Beaufort Research). Roedd y busnesau'n ymrannu'n un o bedwar grŵp busnes gwahanol:

- Atyniadau
- Llety â gwasanaeth
- Llety hunan ddarpar
- Safleoedd carafanau.

Cafodd busnesau eu categoreiddio hefyd yn ôl rhanbarth. Cafodd yr Awdurdodau Unedol canlynol eu cynnwys ym mhob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi'r data:

| **Gogledd Cymru** | **Canolbarth Cymru** | **De Orllewin Cymru** | **De Ddwyrain Cymru** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Ceredigion | Sir Gaerfyrddin | Blaenau Gwent |
| Conwy | Gwynedd* | Castell-nedd Port Talbot | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Sir Ddinbych | Powys | Sir Benfro | Caerffili |
| Sir y Fflint | | Abertawe | Caerdydd |
| Gwynedd* | | | Merthyr Tudful |
| Wrecsam | | | Casnewydd |
| | | | Sir Fynwy |
| | | | Rhondda Cynon Taf |
| | | | Tor-faen |
| | | | Bro Morgannwg |

* Noder, bod Awdurdod Unedol Gwynedd yn pontio dau ranbarth Llywodraeth Cymru, Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn dibynnu ar sector y cod post.

Mabwysiadwyd ymagwedd samplu data, yn ôl y math o fusnes a rhanbarth. Roedd y cwotâu a osodwyd yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd yng nghamau blaenorol yr ymchwil, ac yn arwain at gyfweld â sampl o fusnesau oedd yn fras yn broffil cynrychioladol. Ni phwysolwyd y data.

Mae tabl 1 isod yn amlinellu nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phob grŵp busnes ar draws pob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru.

**Tabl 1 - cyfweliadau a gafwyd yn ôl math o fusnes a rhanbarth**

| Math o fusnes | Rhanbarth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd | Canolbarth | De Orllewin | De Ddwyrain | CYFANSWM |
| **Atyniadau** | 22 | 24 | 20 | 21 | **87** |
| **Llety – â gwasanaeth** | 48 | 30 | 29 | 35 | **142** |
| **Llety - hunan ddarpar** | 50 | 25 | 38 | 20 | **133** |
| **Llety - carafanau** | 11 | 12 | 15 | 5 | **43** |
| **CYFANSWM** | **131** | **91** | **102** | **81** | **405** |

Mae'n bwysig cofio bod y gwaith ymchwil hwn wedi'i lunio i fod yn **ddangosydd perfformiad cynnar** yn unig yn niwydiant twristiaeth Cymru tra bod Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) sy'n fanylach fel arfer yn cael eu paratoi i'w rhyddhau tua chwe mis yn ddiweddarach. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn grynodeb o'r adborth gan y diwydiant, ond mae ffigurau Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig (UKTS) ac Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), pan gânt eu rhyddhau, wedi'u llunio i ddarparu darlun mwy cywir.

## 3. PRIF GANFYDDIADAU


### 3.1 Hyder Busnesau

Gofynnwyd i'r busnesau twristiaeth hynny oedd yn bodoli ers mwy na 12 mis gymharu nifer y gwesteion/ymwelwyr yr oeddent wedi'u derbyn yn ystod mis Mai eleni o'u cymharu â'r rhai a fu drwy gydol mis Mai'r llynedd - roedd y canfyddiadau ar gyfer y cam hwn yn fwy cadarnhaol na'r rhai a welwyd ar gyfer Pasg 2013.

Dywedodd ychydig dros draean (34%) eu bod wedi derbyn tua'r un faint o westeion ym mis Mai eleni o gymharu â mis Mai'r llynedd (dim ond 14% a ddywedodd hyn ar gyfer y Pasg), er bod cyfran debyg (35%) wedi nodi eu bod wedi derbyn llai o westeion/ymwelwyr o gymharu â'r llynedd (dywedodd 49% hyn ar gyfer y Pasg). Dywedodd y 28% arall eu bod wedi derbyn yr un nifer o westeion/ymwelwyr yn ystod mis Mai eleni o gymharu â'r llynedd.

Gan edrych ar hyn yn ôl math o fusnes, dangosodd llety â gwasanaeth y gyfran uchaf o fusnesau'n derbyn mwy o westeion (44%), tra bod bron i hanner y darparwyr llety hunan ddarpar (47%) a dros ddau o bob pump o safleoedd carafanau (43%) wedi nodi eu bod wedi derbyn llai o westeion - gweler Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1**




Seiliau'n amrywio: busnesau sydd wedi bod yn gweithredu am fwy na 12 mis
Cyfanswm=386; Atyniadau (85); Â gwasanaeth (140); Hunan ddarpar (121); Carafanau (40)

Gan edrych ar y gymhariaeth o gwsmeriaid yn ôl rhanbarth, gellir gweld bod y gyfran uchaf o fusnesau sy'n adrodd mwy o westeion wedi'i lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru (43%), tra bod y gyfran uchaf sy'n adrodd llai o westeion (40%) wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru.

Ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi derbyn mwy o westeion, honnodd llawer fod hyn oherwydd y tywydd gwell (23%) a'u hymdrechion marchnata eu hunain (1 %). Soniodd tuag un ym mhob deg (10%) am ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn yr ardal (10%), a dywedodd cyfran debyg bod y cynnydd yn nifer eu gwesteion/ymwelwyr oherwydd ymwelwyr dychwel (8%) - gweler Tabl 2 am fwy o fanylion.

**Tabl 2**

| Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael mwy o westeion / ymwelwyr (heb anogaeth)? | % ymatebwyr |
|---|---|
| **Tywydd gwell** | 23 |
| **Marchnata eu hunain** | 11 |
| **Digwyddiadau yn yr ardal** | 10 |
| **Busnes wrth yr un bobl** | 8 |
| **Ystafelloedd/cyfleusterau gwell** | 5 |
| **Gwelliant mewn twristiaeth** | 3 |
| **Argymhellion** | 3 |
| **Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU** | 2 |
| **Mwy o gapasiti** | 2 |
| **Mwy o ymwelwyr o dramor** | 2 |
| **Arall** | 51 |
| **Ddim yn gwybod** | 10 |

Sail = busnes yn masnachu 12+ mis gyda mwy o ymwelwyr ym mis Mai eleni o'i gymharu â'r llynedd (131)

Soniodd sawl busnes fod eu busnes wedi cynyddu oherwydd argymhellion llafar, ac roedd eraill o'r farn bod yr Eisteddfod yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer eu gwesteion/ymwelwyr.

Soniodd nifer fod gwella'u presenoldeb ar-lein ar safleoedd fel Laterooms.com, TripAdvisor a Facebook wedi arwain at gynnydd mewn busnes.

I rai, roedd dirywiad yn yr economi yn hwb i'w busnes.

> *"Mae'r dirwasgiad wedi achosi i bobl aros yn hirach am ryw reswm. Maen nhw'n archebu ymlaen llaw ac yn dychwelyd"*
> (Llety â gwasanaeth, Canolbarth Cymru)

Ymhlith y busnesau hynny a ddywedodd eu bod wedi derbyn llai o westeion ym mis Mai eleni o gymharu â mis Mai'r llynedd, roedd tua hanner yn teimlo bod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r tywydd gwael (53%) a'r hinsawdd economaidd (47% - dyma'r rhesymau y soniwyd amdanynt amlaf wrth sôn am ddirywiad mewn busnes - gweler Tabl 3 isod am fwy o fanylion.

**Tabl 3**

| Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael llai o westeion /ymwelwyr (heb anogaeth)? | % ymatebwyr |
|---|---|
| **Tywydd ddim cystal** | 53 |
| **Hinsawdd economaidd** | 47 |
| **Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal** | 6 |
| **Cystadleuaeth gref** | 3 |
| **Problemau na ellid eu rhagweld** | 2 |
| **Heb hyrwyddo'r busnes** | 1 |
| **Busnes yn tawelu** | 1 |
| **Arall** | 35 |
| **Ddim yn gwybod** | 4 |

Sail = busnesau'n masnachu 12+ mis gyda llai o ymwelwyr y Pasg hwn o'i gymharu â'r llynedd (135)

Cafwyd galwadau gan nifer o'r busnesau hyn i Croeso Cymru gynyddu ei gefnogaeth i fusnesau twristiaeth yng Nghymru.

> *"Nid yw Croeso Cymru yn rhoi digon o gefnogaeth i fusnesau bach"*
> (Llety â gwasanaeth, De Ddwyrain Cymru)
>
> *"Gallai Croeso Cymru wneud mwy i hyrwyddo Gogledd Cymru"*
> (Llety â gwasanaeth, Gogledd Cymru)
>
> *"Ceir diffyg cyhoeddusrwydd gan Croeso Cymru... mae'n ffafrio De Cymru"*
> Llety Hunan ddarpar, Gogledd Cymru)


Gwnaeth un busnes sôn am sut y cafodd safleoedd talebau gostyngiadau effaith negyddol ar fusnesau llety.

> *"Cwmnïau sy'n defnyddio Groupon! Os yw'ch busnes werth £300 dylech chi ddim ei werthu am £75 "*
> (Llety â gwasanaeth, Gogledd Cymru)

Nid yw'n syndod, pan ofynnir iddynt gymharu trosiant cyffredinol eu busnes ar gyfer mis Mai eleni o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r rhai a welwyd ar gyfer nifer y gwesteion/ymwelwyr. Dywedodd oddeutu traean fod y trosiant yn uwch eleni (35%), er dywedodd yr un gyfran fod y trosiant yn is (33%). Dywedodd y 26% arall fod y trosiant ar gyfer mis Mai eleni tua'r un peth â'r llynedd.  Eto, mae'r canfyddiadau hyn yn fwy positif na'r rhai a gafwyd ar gyfer y Pasg, pan nododd 17% yn unig o fusnesau fod eu trosiant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a phan nododd hanner (50%) fod eu trosiant ar gyfer y Pasg yn is.

Roedd safleoedd carafanau fwyaf tebygol o nodi bod eu trosiant yn uwch ym mis Mai eleni (48%), tra bod darparwyr llety hunan ddarpar fwyaf tebygol o nodi gostyngiad yn y trosiant (43%).  Serch hynny, roedd dau safle carafán o bob pump wedi nodi trosiant is ym mis Mai eleni o gymharu â'r llynedd, gan arwain at ddata ar y ddau begwn ar gyfer y math hwn o fusnes - gweler Ffigur 2 isod.

**Ffigur 2**





Yn nhermau rhanbarth, adroddodd mwy o fusnesau yn Ne Ddwyrain Cymru gynnydd mewn trosiant o'i gymharu â'r llynedd (43%), tra bod mwy o fusnesau yng Ngogledd a De Orllewin Cymru yn adrodd lleihad (37% yr un).

Ar y cyfan, roedd busnesau'n optimistig ar gyfer tymor yr haf sydd ar y gweill - roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer Pasg 2013.

Roedd bron tri chwarter (73%) wedi dweud eu bod yn hyderus ar gyfer tymor yr haf, gyda chwarter (25%) yn dweud eu bod yn hyderus iawn, a bron i hanner (48%) yn eithaf hyderus. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif sylweddol o bron i chwarter (23%) yn hyderus am yr haf i ddod, gydag 19% yn adrodd nad oeddent yn hyderus iawn, a 4% ddim yn hyderus o gwbl.

Ar draws y mathau gwahanol o fusnesau, roedd lefelau'r hyder yn eithaf cyson. Yn gyffredinol roedd lefelau'r hyder ar eu huchaf ymhlith atyniadau (77% yn hyderus) a'r busnesau hynny yn Ne Ddwyrain Cymru (80% yn hyderus); roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer Pasg 2013. Heb os, mae'r ddau ffigur hyn yn gysylltiedig, am fod gan Dde Ddwyrain Cymru y nifer uchaf o atyniadau (yn enwedig atyniadau am ddim) - gweler Ffigur 3 isod.

**Ffigur 3**




Seiliau'n amrywio: Cyfanswm = 405; Atyniadau (87); Â gwasanaeth (142); Hunan ddarpar (133); Carafanau (43); Gogledd (131); Canolbarth (91); De Orllewin (102); De Ddwyrain (81)

## 3.2 Cyrchu Lleol


Gofynnwyd i bob busnes pa mor bwysig ydoedd cyrchu nwyddau a gwasanaethau'n lleol. Roedd rhan fwyaf y busnesau ar draws pob sector a rhanbarth o'r farn ei bod yn bwysig i ryw raddau bod eu busnes yn defnyddio ffynonellau lleol.

Yn gyffredinol, roedd naw busnes o bob deg (91%) o'r farn ei bod yn bwysig cyrchu nwyddau a gwasanaethau lleol, gyda'r rhan fwyaf (63%) yn dweud ei bod yn bwysig iawn. Dim ond cyfran fach o 7% nad oedd o'r farn ei bod yn bwysig i'w busnes ddefnyddio gwasanaethau lleol.

Roedd y farn ar draws y sectorau busnes amrywiol yn eithaf cyson; ym mhob achos roedd y rhan fwyaf o'r farn bod cyrchu lleol yn bwysig, gydag oddeutu chwech o bob deg yn ystyried ei bod yn bwysig iawn.

Wrth ystyried y rhanbarthau, roedd y busnesau hynny yng Ngogledd Cymru ychydig yn fwy o blaid cyrchu nwyddau a gwasanaethau lleol; roedd bron tri chwarter (73%) wedi dweud ei fod yn bwysig iawn, o gymharu ag oddeutu chwech o bob deg yn dweud yr un peth ar draws ardaloedd eraill Cymru - gweler Ffigur 4 isod.

**Ffigur 4**




Seiliau'n amrywio: Cyfanswm = 405; Atyniadau (87); Â gwasanaeth (142); Hunan ddarpar (133); Carafanau (43); Gogledd (131); Canolbarth (91); De Orllewin (102); De Ddwyrain (81)

Yna gofynnwyd i fusnesau pam ei bod yn bwysig neu pam nad oedd yn bwysig i'w busnesau gyrchu nwyddau a gwasanaethau'n lleol. Gan edrych yn gyntaf ar y rhai a oedd o'r farn ei bod yn bwysig iawn i'w busnes, roedd llawer o'r sylwadau'n ymwneud â chefnogi'r economi leol.

*"Mae angen cadw arian yn yr economi leol"*
(Llety â gwasanaeth, Gogledd Cymru)

*"Mae'n rhan o fod mewn cymuned ... rydych chi am i bobl yn eich ardal ffynnu felly rydych chi'n eu cefnogi. Mewn cymuned fach mae hynny'n bwysig ac mae bod yn ffyddlon yn beth da. Rwy'n fodlon talu mwy i gael pethau lleol"*
(Llety hunan ddarpar, De Orllewin Cymru)

Roedd eraill yn hoffi hyrwyddo'r defnydd o gynnyrch Cymreig i'w cwsmeriaid, a nodwyd bod eu cwsmeriaid yn hoffi'r cyfle i brynu cynnyrch Cymreig.

*"Am ein bod ni'n Gymry, rydyn ni'n gwerthu gwin Cymreig ac os ydyn ni'n gwerthu pethau eraill rydyn ni'n hoffi dweud mai cynnyrch Cymreig yw e"*
(Atyniad, De Ddwyrain Cymru)

*"Mae'n ddull marchnata da, ac mae'n helpu'r economi leol hefyd"*
(Llety â gwasanaeth, Canolbarth Cymru)

*"Mae pobl yn hoffi prynu pethau o Gymru pan fyddan nhw ar wyliau"*
(Atyniad, De Orllewin Cymru)

I rai busnesau, roedd defnyddio cyflenwyr lleol yn golygu eu bod yn gallu lleihau'r effaith ar yr amgylchedd

*"Mae defnyddio cyflenwyr lleol yn golygu y gallwn ni leihau ein hôl-troed carbon"*
(Llety â gwasanaeth, Canolbarth Cymru)

Nid oedd lleiafrif bach o fusnesau o'r farn ei bod yn bwysig i'w busnes gyrchu nwyddau a gwasanaethau lleol, ac mae rhai o'r sylwadau'n cyfeirio at y ffaith nad yw pethau lleol o reidrwydd yn golygu ansawdd da.

*"Nid cynnyrch lleol yw'r gorau o reidrwydd ... rydyn ni'n cynnig gwely a brecwast ac wedi rhoi cynnig ar gigyddion o'r safon uchaf yn yr ardal leol ond nid ydynt cystal ag arbenigwr yn Aberystwyth, sy'n gadwyn genedlaethol ac mae'n bosibl nad cig lleol yw e"*
(Llety â gwasanaeth, Canolbarth Cymru)

Nid oedd llawer o fusnesau o'r farn bod cyrchu nwyddau a gwasanaethau lleol yn bwysig oherwydd natur eu busnes.

> *"Mae gennym ni fwthyn hunan ddarpar, a phrin yw'r cynnyrch a ddarperir"*
> (Llety hunan ddarpar, De Ddwyrain Cymru)

> *"Rydyn i'n westy â brand, felly dydyn ni ddim yn prynu'n lleol"*
> (Llety â gwasanaeth, De Ddwyrain Cymru)

I eraill, roeddent yn ystyried y byddai cynnyrch a gwasanaethau lleol yn ddrud.


> *"Mae pris yn ffactor pwysig."*
> (Safle Carafanau, De Orllewin Cymru)

## 3.3 Cynaliadwyedd

Gofynnwyd i fusnesau pa mor bwysig ydoedd bod eu busnes yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Roedd rhan fwyaf y busnesau ar draws yr holl sectorau a rhanbarthau o'r farn bod hyn yn bwysig, gyda bron i ddau draean o'r busnesau yn gyffredinol yn dweud ei fod yn bwysig iawn (63%), a thraean pellach (32%) yn dweud ei fod yn eithaf pwysig iddynt (95% yn bwysig yn gyffredinol). Dim ond lleiafrif bach iawn o 4% a ddywedodd nad oedd gweithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn bwysig i'w busnes.

Atyniadau, a'r busnesau hynny yn Ne Ddwyrain Cymru (lle ceir nifer o atyniadau) oedd fwyaf tebygol o nodi fod gweithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn bwysig iawn i'w busnes (77% a 73% yn y drefn honno) - gweler Ffigur 5.

**Ffigur 5**




Seiliau'n amrywio: Cyfanswm = 405; Atyniadau (87); Â gwasanaeth (142); Hunan ddarpar (133); Carafanau (43); Gogledd (131); Canolbarth (91); De Orllewin (102); De Ddwyrain (81)

Gan adlewyrchu'r pwysigrwydd canfyddedig o weithredu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, nododd bron i bob un o'r busnesau y cyfwelwyd â hwy (99%) eu bod yn gweithredu o leiaf un mesur sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, a'r cyfartaledd oedd pedwar o blith yr wyth peth a restrwyd. At hyn, roedd gan bron hanner y busnesau bolisi amgylcheddol ar waith (49%).

Roedd y mwyafrif llethol yn ailgylchu (97%) tra bod tua thri chwarter yn lleihau'r gwastraff roedd eu busnesau'n ei gynhyrchu (73%) ac yn arbed yr ynni roeddent yn ei ddefnyddio (72%).

Roedd oddeutu hanner yn arbed y dŵr roeddent yn ei ddefnyddio (56%), tra bod dau o bob pump yn annog dulliau teithio heblaw'r car (43%). Roedd traean pellach yn defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy (33%); dim ond 1% a ddywedodd nad oeddent yn gweithredu unrhyw rai o'r mesurau a restrwyd.

Ymhlith y mesurau eraill a oedd yn cael eu harfer roedd ailgylchu gwastraff bwyd, defnyddio tanwydd amgen (e.e. peledi pren neu wres biomas), plannu coed ac addysgu eu gwesteion/ymwelwyr ar sut i fod yn gyfeillgar i'r amgylchedd - gweler Tabl 4 isod.

**Tabl 4**

| Pa rai o'r mesurau canlynol sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd y mae'ch busnes yn eu gwneud ar hyn o bryd, os o gwbl (rhoddwyd anogaeth)? | % ymatebwyr |
|---|---|
| **Ailgylchu** | 97 |
| **Lleihau gwastraff a gynhyrchir** | 73 |
| **Cadwraeth ynni** | 72 |
| **Cadwraeth dŵr** | 56 |
| **Polisi amgylcheddol ar waith** | 49 |
| **Annog dull arall o drafnidiaeth yn hytrach na'r car** | 43 |
| **Ffynonellau adnewyddadwy o ynni** | 33 |
| **Arall** | 9 |
| **Dim un o'r rhain** | 1 |


Sail = pob busnes (405)

Gofynnwyd i'r busnesau a oedd yn gweithredu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd a oeddent erioed wedi defnyddio ffynonellau o arweiniad neu gymorth i ddatblygu cynaliadwyedd eu busnes. Roedd bron i ddau draean wedi dweud eu bod (62%), a'r un y soniwyd amdano amlaf oedd gwybodaeth gan Croeso Cymru (34%).

Dywedodd 29% pellach eu bod wedi defnyddio'u Hawdurdod Lleol i gael arweiniad ar gynaliadwyedd, tra bod un o bob pump (18%) wedi defnyddio Cymorth Busnes Llywodraeth Cymru; roedd cyfran fach wedi ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Garbon (12%).

Roedd y ffynonellau eraill o wybodaeth ac arweiniad y soniwyd amdanynt yn cynnwys Cymal, Cynllun y Ddraig Werdd, Ymddiriedolaeth y Parciau Cenedlaethol a'r Comisiwn Coedwigaeth - gweler Ffigur 6 isod.

**Ffigur 6**





Gofynnwyd i'r busnesau hyn hefyd a oeddent wedi cyfleu eu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd i'w gwesteion/ymwelwyr; roedd cyfran ychydig yn uwch o fusnesau llety yn cyfleu eu mesurau i westeion (71%) o gymharu ag atyniadau (58%).

Rhoddodd hanner y busnesau llety wybodaeth ar ddeunyddiau printiedig, o gymharu â 36% o'r atyniadau a ddywedodd hyn. Roedd atyniadau fwyaf tebygol o hyrwyddo'u mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd drwy eu gwefan (46%), tra bod dim ond 34% o'r busnesau llety yn gwneud hyn.

Roedd tuag un busnes llety o bob tri sy'n gweithredu gweithdrefnau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn cyfleu hyn i'w gwesteion drwy osod posteri yn yr ystafelloedd (28%); roedd y ffyrdd eraill o gyfleu'r mesurau yn cynnwys biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, cyfathrebiadau drwy'r llyfr i westeion, a gair llafar - gweler Ffigur 7 drosodd.

**Ffigur 7**





Dim ond cyfran gymharol fach o fusnesau a oedd yn gweithredu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd oedd wedi ennill unrhyw achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol penodol (17%) - yr un y soniwyd amdano amlaf oedd Gwobr y Ddraig Werdd (37%), gyda chyfrannau bach yn sôn am Gynllun Twristiaeth Werdd (10%), Bellamy (7%), ISO14001 (4%) ac STI (3%).

Roedd yr achrediadau a'r tystysgrifau eraill a enillwyd gan fusnesau'n cynnwys y Faner Werdd, Gwobr Cynaliadwyedd Twristiaeth Awdurdodau Lleol ac achrediadau gan Fwrdd Croeso Cymru - gweler Ffigur 8 drosodd.

### Ffigur 8

**Oes gan eich busnes unrhyw achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol penodol**




Sail: pob busnes (405)

| * Pa achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol sydd gan eich busnes? | % |
|---|---|
| Gwobr y Ddraig Werdd | 37 |
| Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd | 10 |
| Bellamy | 7 |
| ISO14001 | 4 |
| STI | 3 |
| Arall | 39 |
| Ddim yn gwybod | 18 |

* Sail: busnesau sydd ag achrediadau / tystysgrifau (67)

Yna gofynnwyd i'r holl fusnesau a oeddent o'r farn bod unrhyw rwystrau o ran gweithredu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn eu busnes. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod rhai rhwystrau (71%), a'r un y soniwyd amdano fwyaf o bell ffordd oedd y gost (40%). Roedd oddeutu un o bob chwech wedi sôn am y problemau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a chaniatâd cynllunio (7%), tra bod un o bob ugain o'r farn nad oedd eu cwsmeriaid o reidrwydd yn cefnogi eu mesurau i fod yn gyfeillgar i'r amgylchedd (5%).

Roedd y rhwystrau eraill yn cynnwys bod yn berchen ar adeilad rhestredig ac felly'n cyfyngu ar addasiadau arbed ynni posibl, materion a achoswyd gan eu lleoliad neu gyfyngiadau a bennwyd gan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - gweler Tabl 5 isod.

### Tabl 5

| Beth yw'r prif rwystrau i weithredu mesurau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn eich busnes, os o gwbl (digymell)? | % ymatebwyr |
|---|---|
| Cost | 40 |
| Deddfwriaeth / caniatâd cynllunio | 7 |
| Ni fyddai cwsmeriaid yn ei wneud/ yn ei ddefnyddio | 5 |
| Nid yw'n berthnasol/ amhosibl gweithredu | 4 |
| Dod o hyd i'r amser | 3 |
| Diffyg arweiniad ar ddewisiadau eraill | 1 |
| Materion yn ymwneud â gwastraff | 1 |
| Byddai'n creu mwy o waith | 1 |
| Diffyg cyflenwyr lleol | 1 |
| Arall | 28 |
| Dim – does dim rhwystrau o gwbl | 21 |
| Ddim yn gwybod | 8 |

Sail = pob busnes ( 405)

## 3.4 Trafnidiaeth gyhoeddus


Gofynnwyd i fusnesau twristiaeth pa mor ymwybodol oeddent o agweddau amrywiol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal, yn cynnwys y gwasanaethau, llwybrau a'r amserlenni oedd ar gael.

Ar y cyfan, roedd ymwybyddiaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yn gymharol uchel, gyda'r rhan fwyaf o'r busnesau'n dweud eu bod yn eithaf ymwybodol neu'n ymwybodol iawn o'r agweddau hyn ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Roedd lefelau o ymwybyddiaeth ar eu huchaf wrth ystyried pa wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus oedd ar gael; roedd dau draean o'r busnesau wedi dweud eu bod yn ymwybodol iawn (63%), gyda 26% pellach yn dweud eu bod yn eithaf ymwybodol o'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus oedd ar gael yn eu hardal. Dim ond cyfran fach o'r 6% a ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal, ac roedd lefelau ymwybyddiaeth yn gyson ar draws y sectorau busnes a'r rhanbarthau.

Dywedodd ychydig dros hanner yr holl fusnesau twristiaeth y cyfwelwyd â hwy eu bod yn ymwybodol iawn o'r llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal (55%), tra bod 29% yn eithaf ymwybodol. At hynny, roedd dros hanner yn ymwybodol iawn o amserlenni trafnidiaeth leol (51%) gyda chwarter yn dweud eu bod yn eithaf ymwybodol (26%). Fodd bynnag, roedd un busnes o bob deg wedi nodi nad oeddent yn ymwybodol o lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus (12%) ac nad oedd lleiafrif bach o 19% yn ymwybodol o amserlenni trafnidiaeth leol yn eu hardal - gweler Ffigur 9 isod.

**Ffigur 9**



Roedd lefelau ymwybyddiaeth o lwybrau ac amserlenni ar eu hisaf ar gyfer atyniadau, gyda 28% yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o amserlenni ac nad oedd 17% yn ymwybodol o lwybrau.


Roedd tua thri chwarter o'r busnesau twristiaeth wedi dweud bod yn well ganddynt ddarparu gwybodaeth ac anogaeth i'w gwesteion mewn perthynas â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (76%).

Roedd y gyfran uchaf o fusnesau'n sicrhau bod amserlenni ar gael i'w gwesteion/ ymwelwyr (66%), tra bod dau o bob pump (39%) yn hyrwyddo trafnidiaeth leol yn eu llenyddiaeth. Roedd traean pellach yn hyrwyddo gwybodaeth am drafnidiaeth leol ar eu gwefan (30%).

Er bod traean (33%) o fusnesau twristiaeth wedi nodi eu bod yn annog eu gwesteion/ ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ystod eu harhosiad, dim ond 9% oedd yn darparu cymhelliant i wneud hynny.

Roedd rhai busnesau'n darparu trafnidiaeth ar gyfer eu gwesteion/ymwelwyr, tra bod eraill yn rhoi'r opsiwn iddynt o logi beiciau - gweler Ffigur 10 isod.

**Ffigur 10**




Roedd llety â gwasanaeth a safleoedd carafán fwyaf tebygol o roi gwybodaeth i'w gwesteion am drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal (84% ar gyfer pob un) - roedd hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y rhanbarthau gwahanol yn gyson.

# ATODIAD
# Holiadur yr Arolwg

**AROLWG BUSNES CROESO CYMRU 2013 – CAM 2**

**DARLLENWCH YN UCHEL**

Bore da\ prynhawn da\ noswaith dda fy enw i yw _____ o Beaufort Research, Asiantaeth Ymchwil i'r Farchnad annibynnol yng Nghymru. Rwy'n ffonio ar ran Croeso Cymru am fod ganddo ddiddordeb yn eich barn ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru. Bydd yr arolwg ond yn cymryd ychydig o funudau a bydd popeth a ddywedwch yn aros yn gyfrinachol, gyda'r canlyniadau yn cael eu cyfuno gydag ymatebion busnesau eraill a'u hadrodd i Croeso Cymru.

Galla i wirio un peth, ai chi yw perchennog y busnes neu a oes gennych chi rôl rheoli yn y busnes?

**OS NA:** gofynnwch am gael siarad â rhywun sydd â rôl rheoli/ y perchennog.

S1 Yn gyntaf, galla i wirio - ydych chi'n siarad Cymraeg?

01: Ydw - yn rhugl
02: Ydw - ddim yn rhugl
03: Na - nid yw'n siarad Cymraeg

S2. Fyddai'n well gennych gael y cwestiynau yn Gymraeg neu yn Saesneg?

01: English \ Saesneg
02: Welsh \ Cymraeg

C1. Ydy eich busnes wedi bod yn gweithredu am fwy na 12 mis?

01: Ydy
02: Nac ydy

C2. O'i gymharu â'r Mai y llynedd, faint o westeion / ymwelwyr ydych chi wedi'u cael y Mai hwn? A fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael...
**DARLLENWCH YN UCHEL**

01: Mwy na'r llynedd
02: Yr un faint â'r llynedd
03: Llai na'r llynedd

C3. Pam ydych chi’n meddwl eich bod wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr?
**PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - AML-GODIWCH**

01: Mwy o bobl o Brydain yn aros yn y DU
02: Tywydd gwell
03: Marchnata eu hunain
04: Busnes wrth yr un bobl
05: Gwelliant yn nhwristiaeth
06: Argymhellion
07: Mwy o gapasiti
08: Digwyddiadau yn yr ardal
09: Ystafelloedd/cyfleusterau gwell
10: Mwy o ymwelwyr o dramor
11: Arall (nodwch)

C4. Pam ydych chi’n meddwl eich bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr?
**PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - AML-GODIWCH**

01: Hinsawdd economaidd
02: Tywydd ddim cystal
03: Problemau na ellid eu rhagweld
04: Cystadleuaeth gref
05: Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal
06: Busnes yn tawelu
07: Llai o ymwelwyr o dramor
08: Heb hyrwyddo’r busnes
09: Arall (nodwch)

C5. O'i gymharu â'r Mai y llynedd, sut fyddech chi'n disgrifio'r trosiant cyffredinol ar gyfer y Mai eleni...?
**DARLLENWCH YN UCHEL**

01: Yn uwch na'r llynedd
02: Yr un peth a'r llynedd
03: Yn is na'r llynedd

C6. Pa mor bwysig yw hi i chi gael nwyddau a gwasanaethau'n lleol?
**DARLLENWCH YN UCHEL**

01: Pwysig iawn
02: Eithaf pwysig
03: Ddim yn bwysig iawn
04: Ddim yn bwysig o gwbl

C7. Pam eich bod yn dweud hynny?
**COFNODWCH AIR AM AIR**

C8. Pam mor bwysig, yn eich barn chi, yw hi y dylai'ch busnes weithredu mewn modd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd?
**DARLLENWCH YN UCHEL**

01: Pwysig iawn
02: Eithaf pwysig
03: Ddim yn bwysig iawn
04: Ddim yn bwysig o gwbl

C9. Pa rai o'r mesurau canlynol sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd y mae'ch busnes yn eu gwneud ar hyn o bryd os o gwbl?
**HOLWCH-** Unrhyw rai eraill?
**DARLLENWCH YN UCHEL - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

01: Ailgylchu
02: Ffynonellau adnewyddadwy o ynni
03: Cadwraeth ynni
04: Cadwraeth dwr
05: Annog dull arall o drafnidiaeth yn hytrach na’r car
06: Polisi amgylcheddol ar waith
07: Lleihau gwastraff a gynhyrchir
08: Arall (nodwch)

C10. Pa rai o'r ffynonellau canlynol o arweiniad neu gefnogaeth ydych chi wedi'u defnyddio i ddatblygu cynaliadwyedd eich busnes, os o gwbl?
**HOLWCH**- Unrhyw rai eraill?
**DARLLENWCH YN UCHEL - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

01: Croeso Cymru
02: Cymorth Busnes Llywodraeth Cymru
03: Awdurdod Lleol
04: Ymddiriedolaeth Carbon
05: Arall (nodwch)

C11. Beth yw'r prif rwystrau i weithredu mesurau su'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn eich busnes, os o gwbl?
**PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

01: Cost
02: Nid yw'n berthnasol \ amhosibl i weithredu (e.e. dim trafnidiaeth leol gerllaw)
03: Dod o hyd i'r amser
04: Deddfwriaeth \ caniatâd cynllunio
05: Byddai'n creu mwy o waith inni
06: Materion yn ymwneud â gwastraff
07: Ni fyddai cwsmeriaid yn ei wneud \ yn ei ddefnyddio
08: Diffyg arweiniad ar ddewisiadau eraill
09: Diffyg cyflenwyr lleol
10: Llai o effeithlonrwydd (defnyddio ynni \ trafnidiaeth amgen)
11: Arall (nodwch)

C12. Er mwyn gwneud eich cwsmeriaid yn ymwybodol o arferion cynaliadwy rydych chi'n eu gwneud, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu gwneud, os o gwbl?
**HOLWCH**- Unrhyw rai eraill
**DARLLENWCH YN UCHEL - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

01: Darparu posteri yn yr ystafelloedd
02: Darparu gwybodaeth ar y wefan
03: Darparu gwybodaeth ar ddeunyddiau printiedig
04: Arall (nodwch)

C13. Oes gan eich busnes unrhyw achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol penodol?

01: Oes
02: Nac oes

C14. Pa achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol sydd gan eich busnes?
**PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

01: Gwobr y Ddraig Werdd
02: Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd
03: ISO14001
04: STI
05: Bellamy
06: Arall (nodwch)

C15. Pam bod eich busnes wedi penderfynu cael yr achrediadau neu dystysgrifau amgylcheddol?
**COFNODWCH AIR AM AIR**

**DARLLENWCH YN UCHEL** - Mae'r ychydig o gwestiynau nesaf yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus yn eich ardal leol.

C16. Sut fyddech chi'n graddio eich ymwybyddiaeth o'r canlynol yn eich ardal leol?
**DARLLENWCH YN UCHEL**

01: Ymwybodol iawn
02: Eithaf ymwybodol
03: Ddim yn ymwybodol iawn
04: Dim yn ymwybodol o gwbl

- Pa wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael (e.e. trenau, bysiau ac ati)
- Amserlenni trafnidiaeth leol
- Llwybrau trafnidiaeth leol

C17. Er mwyn gwneud eich cwsmeriaid yn fwy ymwybodol o'r dulliau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn eich ardal leol, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu gwneud, os o gwbl?
**HOLWCH-** Unrhyw rai eraill?
**DARLLENWCH YN UCHEL - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

01: Sicrhau bod amserlenni ar gael yn eich eiddo
02: Hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth leol yn eich deunydd hyrwyddo
03: Mynd ati'n weithredol i annog gwesteion \ ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
04: Hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth leol ar eich gwefan
05: Cynnig cymhellion \ disgowntiau i westeion \ ymwelwyr sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus
06: Arall (nodwch)

C18. Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio eich lleoliad orau:
**DARLLENWCH YN UCHEL:**

01: Glan y môr
02: Mewndirol
03: Trefol

C19. Pa mor hyderus ydych chi am dymor yr haf?

01: Hyderus iawn
02: Eithaf hyderus
03: Ddim yn hyderus iawn
04: Ddim yn hyderus o gwbl

C20. Er mwyn ein helpu gyda'r dadansoddiad, alla i ofyn, ydy'ch busnes wedi'i raddio neu'n achrededig gan Croeso Cymru?

01: Ydyw
02: Nac ydyw

**DARLLENWCH YN UCHEL:**

Diolch am roi o'ch amser.

I gadarnhau, fy enw yw _________ ac rwy'n ffonio o Beaufort Research a chynhaliwyd yr arolwg hwn yn unol â Chod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil Marchnata.

Os hoffech wirio ein cymwysterau gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil y Farchnad am ddim ar 0500 39 69 99.

Diolch eto a hwyl fawr.

**NODIADAU**